Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gystadleuaeth i ddod o hyd i amgylffrediad pobl ynglŷn â'r diffiniad o gyfranogi. Mabwysiadwyd y cynnig llwyddiannus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chonsortium Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru: **“Mae cyfranogi yn golygu bod gennyf hawl i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu gweithred a allai effeithio arnaf. Cael llais, cael dewis.”**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i weithredu egwyddorion Erthygl 12 ar draws Cymru gan sicrhau trwy hynny bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed ddweud eu dweud ac i gyfrannu at wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r ymrwymiad hwn wedi cael ei atgyfnerthu mewn nifer o wahanol bolisiâu strategol gan Lywodraeth y Cynulliad, er enghraifft Ymestyn Hawliau¹ sy'n rhestru deg o hawliau sydd mewn llawer ffordd yn debyg i UNCRC, gan gynnwys hawl pobl ifanc i gymryd rhan. Cafodd cyfranogiad sail statudol o dan Ddeddf Plant 2004, a oedd yn cael ei sefydlu ar gyfer holl waith y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae canllawiau'n mynnu bod pob awdurdod lleol a'u partneriaid yn gwneud trefniadau strategol 3-blynedd trwy gyfrwng eu cynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Cynlluniau hyn yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru:

- yn cael cychwyn cadarn mewn bywyd;
- yn cael ystod eang o gyfleoedd addysgu a dysgu;
- yn profi'r iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;
- bod gan y plant fynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol;
- eu bod yn cael gwrandawriad a'u trin gyda pharch, gan roi cydnabyddiaeth i'w hunaniaeth hiliol a diwylliannol;
- bod ganddynt gartref diogel a chymuned sy'n cynnal eu lles corfforol ac emosiynol;
- nad ydynt yn wynebu anfantais oherwydd tlodi.

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004), Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Polisi Cymru hefyd wedi gweld sefydlu Comisiynydd Plant annibynnol sy'n hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru². Mae gan y Comisiynydd bwerau i adolygu effaith polisiau a darpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Yn seiliedig ar eu barn, gall y Comisiynydd ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru gyda dyletswydd i dalu sylw i'r UNCRC wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae Cynulliad Cymru hefyd wedi gwneud trefniadau ar wahanol lefelau i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Enghreifftiau o hyn yw:

- Mae'r Ddraig Ffyni – Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad beth y maent yn ei feddwl o bolisiau allweddol sy'n effeithio arnynt.
- Fforymau leuenctid sydd ar gael yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac sy'n anelu at wneud i sefydliadau a gwasanaethau lleol wrando ar farn pobl ifanc a'u cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau.
- Cyngorau Ysgolion, lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhedeg yr ysgol a pholisiau'r ysgol o ddydd i ddydd. Bu hyn yn ofyniad statudol yng Nghymru trwy Reoliadau Cyngor Ysgolion (Cymru) 2005.



2.2. Buddion Cyfranogi



Mae buddion niferus i gyfranogiad ac mae hynny'n awgrymu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogol yn gallu cael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc, sefydliadau ac adrannau o'r cyngor yn ogystal â'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'r buddion yn cynnwys: datblygu ymdeimlad o berthyn ac o berchenogaeth; dylanwadu ar yr hyn y mae'r gwasanaeth neu'r prosiect yn ei wneud; dysgu sgiliau newydd; cael ymdeimlad o gyflawni; sylweddoli bod barn a safbwyntiau'r unigolyn yn cyfrif; a chynnydd yn hunanhyder y plant a'r bobl ifanc.

Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru cynhaliodd York Consulting LLP brosiect yn ymchwilio i'r buddion a gododd o gyfranogiad plant a phobl

ifanc yng Nghymru yn 2008³. Roedd yr ymchwil yn adolygu 30 ffynhonnell o lenyddiaeth a oedd yn amlygu arferion da ym maes cyfranogiad plant a phobl ifanc. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod nifer o ffactorau yn hyrwyddo cyfranogiad:

- hybu hawliau plant a phobl ifanc;
- cryfhau dinasyddiaeth a phrosesau democrataidd;
- gwella ysgolion, sefydliadau a chymunedau;
- yn ogystal â bod yn ffordd o wella bywydau plant a phobl ifanc.

² Welsh Assembly Government (2004), Children and Young People: Rights to Action. Wales: Welsh Assembly Government

³ Kendall, S. (2008), Research into Children and Young People's Participation in Wales: The Benefits of Participation. Leeds: York Consulting LLP

Roedd grwpiau eraill hefyd yn gweld budd mewn gweithgareddau cyfranogi gan gynnwys staff, sefydliadau a rhieni. Roedd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn rhoi golwg newydd i bobl ynglŷn â datblygu gwasanaethau ac yn herio agweddau ynglŷn â phlant a phobl ifanc. Y mae hefyd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a gweladwy o ran gwella'r amgylchedd ffisegol. Roedd y buddion i blant a phobl ifanc yn cynnwys gwelliant yn eu hunanhyder ac yn eu cydberthynas gyda phobl eraill. Daeth yr ymchwil hefyd i'r casgliad bod rhai o sgiliau penodol plant a phobl ifanc wedi cael eu datblygu trwy weithgareddau cyfranogi, roedd hyn yn cynnwys sgiliau gwneud penderfyniadau yn ogystal â'u dealltwriaeth o brosesau gwneud penderfyniad.

2.3. Modelau o Gyfranogi

Mae nifer o fodelau cyfranogi yn bodoli ac yn disgrifio lefelau cyfranogiad a chysylltiad plant a phobl ifanc. Un o'r modelau mwyaf cyfarwydd yw ysgol Cyfranogiad Hart⁴. Mae'r model hwn ar ffurf ysgol wyth ffon yn codi o drin gwybodaeth ar y ffon gyntaf i bartneriaeth gydradd; lle mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd ar y gris uchaf. At ei gilydd, nid ystyrir bod tair ffon gyntaf ysgol yn gyfranogiad gwirioneddol. Mae'r ysgol yn cymryd bod rhai lefelau o gyfranogiad yn fwy ystyrlon nag eraill a'i bod bob amser yn well symud tuag at gynyddu lefelau cyfranogiad.

Datblygodd Treseder⁵ fodel amgen sy'n cydnabod bod gwahanol fathau o gyfranogiad yn ddilys ar gyfer gwahanol blant a phobl ifanc a gwahanol sefydliadau ar adegau gwahanol. Y mae ei fodel ef yn symud oddi wrth fodel hierarchaeth Hart, gan ddangos y graddau o gyfranogi ar ffurf cylch.



⁴ Hart, R. (1992), *Children's Participation: from tokenism to citizenship*. Florence: UNICEF Innocenti Research Centre

⁵ Treseder, P. (1997), *Empowering children and young people*. London: Save the Children

3. Cyfranogiad ym Mro Morgannwg

3.1. Gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth Cyfranogiad

Nod y Strategaeth Cyfranogiad yw adeiladu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi ym Mro Morgannwg. Er mwyn cyflawni'r nod honno, byddwn yn:

Adeiladu diwylliant sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Datblygu strwythurau sy'n cefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc yn systemau a phrosesau allweddol yr holl bartneriaid gan gynnwys monitro cyllideb, cyllid ac adolygu adnoddau; er mwyn sicrhau bod y gwaith cynllunio a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn cymryd safbwyntiau plant a phobl ifanc i ystyriaeth.

Atgyfnerthu arferiad trwy wella ein dull o ymgysylltu a gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn cefnogi eu cyfranogiad fel unigolion ac fel grŵp.

Sefydlu prosesau monitro ac adolygu sy'n caniatáu gwerthuso effaith cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn prosesau llunio penderfyniadau, ac yn caniatáu gwerthuso'r canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Sefydlu systemau cyfathrebu effeithiol rhwng y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, grwpiau cymunedol lleol, Fforwm Ieuenctid y Fro, cynghorau ysgol, grwpiau diddordeb arbennig a grwpiau lleiafrifol.

3.2. Y Cefndir i Gyfranogiad ym Mro Morgannwg

Adolygwyd lefelau cyfredol cyfranogiad ym Mro Morgannwg fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth Cyfranogiad. Gwnaeth y Tasglu Cyfranogiad Pobl Ifanc ddadansoddiad SWOT o gyfranogiad pobl ifanc yn y Fro ym Mawrth 2008. Dyma'r ystyriaethau a nodwyd ganddynt:



Cryfderau

- Swyddog Cyfranogi
Gwasanaethau ieuencid yn ei swydd ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed
- Cydweithio rhwng nifer fawr o asiantaethau partneriaid
- Mae Tasglu Cyfranogiad wedi ei sefydlu'n gadarn ac yn cael ei fynychu'n dda
- Ysgolion Bro yn cymryd rhan ac yn gyfrannog
- Prosiectau a gweithgareddau llwyddiannus

Cyfleoedd

- Ymateb i anghenion eang ac amrywiol plant a phobl ifanc
- Mentrau ar y cyd rhwng cyrff sy'n bartneriaid
- Cyfuno adnoddau i ddatblygu prosiectau ac ar gyfer gweithgareddau cyfranogi
- Adeiladu ar systemau a strwythurau sy'n bodoli'n barod
- Rhoi grym i blant a phobl ifanc
- Gofynion cyfreithiol i gwblhau gweithgareddau cyfranogol
- Gwella ansawdd y gwasanaethau

Gwendidau

- Dim fforwm ieuencid gweithredol
- Diffyg adnoddau penodol ar gyfer datblygu gweithgareddau cyfranogi
- Mae llawer o weithgareddau cyfranogi unwaith ac am byth yn hytrach na phrosesau parhaus
- Diffyg tystiolaeth o lwyddiant a budd cyfranogi
- Dim cydnabyddiaeth yn y gymuned o bwysigrwydd cyfranogiad pobl ifanc
- Nid yw pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdrefnau llywodraethu
- Dull anghyson o rododi adborth i bobl ifanc
- Anawsterau mewn mesur lefelau cyfranogiad

Bygythiadau

- Goleuo pobl ynglŷn â gwerth cyfranogi Sicrhau bod pobl yn ymwybodol o werth cyfranogi
- Diffyg cydgysylltu gweithgareddau cyfranogi ar gyfer plant hyd at 10 oed
- Dim trefniadau dilyniant yn dilyn gweithgareddau cyfranogi

Mae'r heriau a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu gweithgareddau cyfranogi ym Mro Morgannwg fel a ganlyn:


Heriau

- Sicrhau bod pobl yn derbyn bod gwerth i gyfranogi
- Cyllid cynaliadwy ar gyfer gweithgareddau cyfranogi
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd eisoes yn cymryd rhan ac yn gysylltiedig â phrosiectau yn parhau i wneud hynny
- Sicrhau bod tasgau yn cael eu dyrannu'n briodol ymhlith asiantaethau sy'n bartneriaid
- Sut i fesur llwyddiant prosiectau cyfranogi?
- Cael y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i dderbyn yr angen i ymgorffori canlyniadau gweithgareddau cyfranogi
- Amrywiaeth ddaearyddol a diwylliannol trwy Fro Morgannwg

Cefnogaeth

- Aelodau'r Grŵp Gorchwyl Cyfranogi
- Y gefnogaeth y mae'r agenda cyfranogi wedi ei derbyn oddi wrth bartneriaid
- rwpiau unigol – ymrwymiad i gynnal gweithgareddau cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc

Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg wedi derbyn model Treseder o gyfranogi ac y mae felly yn ymdrechu i sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn anelu at sicrhau'r lefel uchaf o gyfranogiad ag sy'n briodol. Serch hynny, ag ystyried y gall maint eu cyfranogiad amrywio o sefyllfa i sefyllfa, rhoddir blaenoriaeth i ymdeimlad plant a phobl ifanc eu bod yn cyflawni tra ar yr un pryd yn parchu eu dewis sut i gymryd rhan. Dangosir y model yn y diagram isod.



Ffigur1. Model Treseder o gyfranogiad

Mae gweithgareddau wedi cael eu cynnal hefyd i sefydlu arferion cyfranogi ymhlith cyrff lleol sy'n bartneriaid. Ym Mawrth ac Ebrill 2008, gofynnwyd i holl bartneriaid Partneriaeth Plant a Phobl Bro Morgannwg gwblhau holiadur yn archwilio eu gweithgareddau cyfranogol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Roedd yr ymchwili yn dangos bod lle i farn plant a phobl ifanc o fewn y sefydliadau a holwyd. Roedd yr ymatebion yn dangos nad ymddengys bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan uniongyrchol mewn gwneud penderfyniadau, er yr ymgynghorir yn weithredol gyda hwy ynglŷn â darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu holi am sefyllfaoedd cyfredol. Y mae'n beth cadarnhaol iawn na ddywedodd yr un sefydliad nad ydynt yn ystyried barn plant a phobl ifanc yn eu prosesau o wneud penderfyniadau. Mae'r amrywiaeth o atebion a gafwyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y sefyllfa'n amrywio ar draws y gwahanol sefydliadau. Gallai cynnal trafodaethau pellach gyda'r cyrff sydd fwy ar y blaen o safbwynt arferion cyfranogi arwain at rannu rhai enghreifftiau o arferion da.

Peth arall a wnaethpwyd oedd cynnal gweithgaredd ymgynghori gyda grwpiau o bobl ifanc yn ystod Wythnos Ddemocratiaeth Leol yn 2008. Roedd y casgliadau yn dangos nad yw barn pobl ifanc ym Mro Morgannwg bob amser yn cael prif ran yn y broses o lunio penderfyniadau yn yr ysgolion y maent yn eu mynychu a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'r casgliadau hefyd yn dangos bod pobl ifanc yn teimlo nad ymgynghorir gyda hwy yn gyson ynglŷn ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o fewn ysgolion ac yn y cymunedau. Gellir ystyried ei bod yn gadarnhaol iawn bod 44% o'r bobl ifanc a holwyd yn gwybod beth yr oedd eu cyngor ysgol wedi ei gyflawni, ond roedd yr atebion yn amlygu'r ffaith bod 36% yn teimlo'n groes i hynny. Awgrymodd pobl ifanc hefyd mai "agweddau negyddol oedolion" oedd y prif rwystr iddynt gymryd rhan. Cafwyd rhestr helaeth ganddynt o syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â sut i fod yn fwy cyfrannog yn eu hysgolion a'u cymunedau.

Mae plant a phobl ifanc hefyd wedi cael gwrandawriad a chefnogaeth mewn nifer o weithgareddau sy'n cynrychioli arferion gorau a gwerth am arian ym Mro Morgannwg:

Wythnos Ddemocratiaeth Leol Mae'r Wythnos Ddemocratiaeth Leol yn ymgyrch genedlaethol i annog pobl ifanc i fod yn fwy ymwybodol o'u cyngor ac i gymryd rhan. Dyfeisiwyd yr ymgyrch gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ac mae'n digwydd trwy'r cyfan o'r Deyrnas Unedig. Mae bron i 500 o bobl ifanc wedi mynychu digwyddiadau 'Pawb a'i Farn Pobl Ifanc' a bron i 300 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y gweithgaredd ar lein "Rwy'n gynghorydd gadewch fi allan o fan hyn". Mae dros 500 o bobl ifanc wedi cofrestru i bleidleisio yn dilyn cyfres o sioeau teithiol a gynhaliwyd mewn ysgolion uwchradd ym Mro Morgannwg.

Cytundeb Ieuenctid Mae hwn yn brosiect a ariannwyd gan Fro Fwy Diogel rhwng 1 Hydref 2007 a 31 Mawrth 2008. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu pryderon ac i godi materion ynglŷn â'u cymuned. Darparwyd y prosiect mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg, Heddlu De Cymru, Ysgolion Bro, Fforwm Ieuenctid y Fro, Tîm Gwaith Ieuenctid y Pulse Street Detached, y Tîmau Plismona yn y Gymdogaeth a darparwyd gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol. Mae'r prosiect yn dal i redeg mewn ysgolion trwy gydweithrediad partneriaid.

3.3 Amcanion y Strategaeth Cyfranogiad

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd trwy ymchwilio i anghenion lleol trwy weithdai, arolygon Cymunedau sy'n Gofalu a thrwy arolygon Barn rhyngweithiol. Un o feini prawf y prosiectau sy'n cael eu cyllido gan Cymorth yw bod gan bob prosiect brosesau cyfranogi a bod y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi dylanwadu ar ddarpariaeth y prosiect.

Yr ydym yn cydnabod nad yw cyfranogiad plant 0-10 oed wedi datblygu yn ddigonol ym Mro Morgannwg, ond mae llawer o wasanaethau wedi sefydlu dulliau rhagorol o gael plant i gyfrannu at ddatblygu eu gwasanaethau. Bydd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cyflogi gweithiwr Cyfranogiad Plant i ddatblygu cysondeb yng nghyfranogiad pobl o bob grŵp oedran. Mae Fforwm Ieuenctid y Fro yn elusen gofrestredig annibynnol sydd wedi bod yn gweithredu am dros 10 mlynedd, gan ymroi'n benodol i annog pobl ifanc i gyfranogi'n weithredol ym mhob agwedd ar fywyd ym Mro Morgannwg. Mae'r Fforwm yn dymuno cyflogi cydgysylltydd a fydd yn adeiladu capasiti gyda phobl ifanc a phartneriaid, i gefnogi amcanion strategol lleol a chenedlaethol. Gan hynny, bydd yn sicrhau a hyrwyddo llais cyfun pobl ifanc ac yn rhoi cymaint â phosibl o gyfle iddynt ddylanwadu ar wneud penderfyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau a'r penderfyniadau a wneir yn y cymunedau lle maent yn byw. Ym mhob un o nodau a chatau gweithredu'r strategaeth bydd yr holl bartneriaid yn glynu at y safonau ansawdd ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant fel y nodir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a'r polisiau a restrir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Amlinellir isod yr ymrwymadau y dylai'r holl sefydliadau a phartneriaid eu cefnogi fel rhan o'r Strategaeth Cyfranogiad gyffredin hon ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg. Mae'r rhaglenni a'r prosiectau canlynol yn cyflawni rhai o amcanion Nod Craidd 5 a blaenoriaethau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg:

3.3.1 Cyfranogiad Disgyblion

Nod: Datblygu a chefnogi strwythurau cynghorau ysgolion cynradd ac uwchradd ym Mro Morgannwg er mwyn cynyddu cyfranogiad, symbyliad ac ymgysylltiad disgyblion gan annog disgyblion i fod yn gyfrannog ym mhrosesau'r ysgol o wneud penderfyniadau.

Amcanion:

- Sicrhau bod rhywfaint o gysondeb yng ngwaith holl gynghorau ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gweithredu ym Mro Morgannwg. Er enghraifft bod yr ymgyrchoedd etholiadol i ethol cyngor ysgol newydd yn digwydd yn ystod yr un cyfnod.
- Darparu dewis o gyfleoedd hyfforddi a mecanweithiau i gefnogi disgyblion ac athrawon y cynghorau ysgolion.
- Galluogi cynghorau ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Fro i rannu arferion da a'u galluogi i lobïo ar y cyd i wella systemau cyfranogiad disgyblion.

- Galluogi pob cyngor ysgol gynradd ac uwchradd yn y Fro i weithredu mewn cyswllt gyda Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y Fro, eu fforymau lleol a'u grwpiau cymunedol a chysylltu gyda chyrrff a digwyddiadau eraill ym maes cyfranogi.

Canlyniadau a buddion:

- Bod disgyblion yn cael y sgiliau sydd eu hangen i gyfranogi'n effeithiol.
- Darparu mwy a gwell cefnogaeth ac adnoddau i ddisgyblion ac athrawon y cynghorau ysgolion.
- Bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys, fel eu bod yn mwynhau bywyd yn yr ysgol yn well a bod gostyngiad yn nifer y disgyblion a allai gael eu gwahardd.
- Mae cyfranogiad disgyblion yn ysgogi ac yn hwyl ac yn helpu disgyblion i deimlo eu bod yn rhan o bethau.
- Mae polisïau a gwasanaethau ysgolion yn fwy effeithiol ac effeithlon os ydynt yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso ar sail anghenion penodol y disgyblion, gyda'r disgyblion eu hunain yn cymryd rhan.
- Cadw at Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005.
- Mae cymuned yr ysgol yn cael budd o newidiadau a wneir, er enghraifft, gwell bwyd yn y ffretur, gwell offer, llai o fwlio ac yn y blaen.
- Cael mynediad i becynnau hyfforddi a chyfleoedd i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.
- Posiblwydd y cyrhaeddir targedau Addysg Bersonol a Chymdeithasol i rymuso disgyblion i gymryd rhan yn eu cymunedau fel dinasyddion gweithredol.
- Paratoi'r cynghorau ysgolion yn well ar gyfer arolygiadau Estyn.



3.3.2. Cyfranogiad Cymunedol

Nod: Sefydlu Fforwm cynaliadwy o bobl ifanc sy'n cynrychioli eu cymunedau neu grwpiau y tu allan i oriau ysgol.

Amcanion:

- Sicrhau bod peth cysondeb yng ngwaith cyfranogi'r holl asiantaethau a gwasanaethau sy'n gweithredu ym Mro Morgannwg gyda ffocws ar bobl ifanc a'u hannog i gydweithio hefyd.
- Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn hyfforddiant i bobl ifanc a gweithwyr a chefnogaeth ar eu cyfer.
- Sicrhau cyllid allanol i flaenoriaethu a thargedau grwpiau o bobl ifanc sydd â diddordebau arbennig neu sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol er mwyn eu galluogi a'u grymuso i lobio ar y cyd i wella gwasanaethau ieuenctid a rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth.
- Galluogi Fforwm Ieuenctid y Fro i fod mewn cysylltiad gweithredol gyda Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y Fro, eu grwpiau cymunedol lleol er enghraifft Fforwm Ieuenctid Cymunedau'n Gyntaf Gibbonsdown a Court, Cytundebau Ieuenctid a gyda chyrrff a digwyddiadau eraill ym maes cyfranogi.
- Cefnogi ac annog gweithgareddau cyfranogol sy'n deillio oddi wrth blant a phobl ifanc eu hunain.



Canlyniadau a buddion:

- Mekanwaith sylweddol ar gyfer grwpiau o bobl ifanc i'w hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dinasyddiaeth weithredol.
- Darparu cefnogaeth ac adnoddau ar gyfer grwpiau y tu allan i oriau ysgol a grwpiau sy'n defnyddio gwasanaethau ieuenctid.
- Atal dieithrwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan fod gan bobl ifanc gyfle i ddweud eu dweud ac i fynegi eu dewis ynglŷn â'u cymunedau.
- Mae mentrau cymunedol yn fwy effeithiol ac effeithlon os ydynt yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso ar sail anghenion penodol y bobl ifanc, gyda'r bobl ifanc eu hunain wedi cymryd rhan.
- Gwell cydlynad cymdeithasol.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc 18-25 oed sy'n dewis pleidleisio yn eu hetholiadau lleol a chyffredinol.
- Ymgysylltiad a chyfranogiad grwpiau lleiafrifol o bobl ifanc yn y gymuned ac mewn gweithgareddau cyfranogiad ieuenctid.

3.3.3. Cyngor ieuenctid y Fro

Nod: Y nod hirdymor yw sefydlu Cyngor Ieuenctid y Fro a fydd yn gorff democrataidd etholedig i drafod, dylanwadu a chraffu ar faterion y Cyngor sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl ifanc.

Amcanion:

- Gweithio gyda phobl ifanc o nifer o wahanol brosiectau cyfranogi, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac arweinwyr y cyngor i ddatblygu Cyfansoddiad Cyngor Ieuenctid y Fro sy'n caniatáu dylanwad gwirioneddol y prosesau o wneud penderfyniadau.
- Sefydlu proses o etholiadau i ethol pobl ifanc yn ddemocrataidd i Gyngor Ieuenctid y Fro.


Canlyniadau a buddion:

- Hysbysu pobl ifanc ynglŷn â gwleidyddiaeth a'r ffordd y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.
- Darparu mecanwaith i wleidyddion lleol fod yn fwy cynrychioladol o bobl ifanc ac yn fwy atebol iddynt.
- Creu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc 18-25 oed sy'n dewis pleidleisio mewn etholiadau lleol a chenedlaethol.
- Cydnabod bod mentrau ieuenctid y Cyngor yn fwy effeithiol ac effeithlon os ydynt yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso ar sail anghenion penodol y bobl ifanc, gyda'r bobl ifanc eu hunain yn cyfranogi.
- Gwell cydlynad cymdeithasol ac adnewyddu sifil.
- Codi proffil buddsoddiad Cyngor y Fro mewn Cyfranogiad pobl ifanc yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r cynlluniau gweithredu sydd ynghlwm yn cyfeirio at waith sydd angen ei ddatblygu i gefnogi gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad a'r blaenoriaethau a nodir

yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Byddant yn cael eu monitro a'u gwerthuso gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg ynghyd â rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc. Mae'r cynlluniau yn SMART a byddant yn cael eu hadolygu yn flynyddol.

3.4. Y Strwythur Cyfranogiad Lleol



4. Monitro & Gwerthuso – Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc

Allan o 'egwyddorion craidd' sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol ar gyfer cyfranogiad, mae'r Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a'r Uned Cyfranogiad wedi datblygu Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, hynny yw safonau ansawdd sy'n gallu bod yn ffordd o archwilio ac asesu arferion cyfranogi.

Mae'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chawsant eu lansio yn 2007. Maent yn safonau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl pan ofynnir iddynt gyfranogi. Mae 7 o safonau: Gwybodaeth; Eich Dewis Chi; Dim Gwahaniaethu; Parch; Mae Rhywbeth ynddo i Chi; Adborth; Gwella'r Ffordd yr ydym yn Gweithio.

Mae'r Safonau yn anelu at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael profiad da, cadarnhaol ac ystyrlon o gyfranogi. Nod y Safonau yn y pendraw yw gweithio tuag at weithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc ar draws Cymru gyfan trwy broses o asesu allanol yn ôl Nod Barcud Cenedlaethol (neu gynllun sicrhau ansawdd cyffelyb), sy'n cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Uned Cyfranogiad wedi datblygu pecyn hunanasesu i fynd ochr yn ochr â'r Safonau Cyfranogiad, ac sy'n pwysleisio pwysigrwydd arferion da a'r pwysigrwydd o gael sefydliadau i ddechrau mesur eu perfformiad eu hunain yn erbyn y safonau.

Bydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei Gynllun Plant a Phobl Ifanc a'i Strategaeth Cyfranogiad trwy ddefnyddio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Bydd rheolaeth strategol y gwaith o arolygu mewn cymhariaeth â'r Safonau yn cael ei chymeradwyo gan grŵp llywio a fydd yn cynnwys arolygwyr ifanc.

Cael Llais - Cael Dewis

Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?

* Mae 100 yn gyfnewid unigol i'w gysylltu â phobol Rannu gyfnewid. Mae gennych 100 yn Cael Llais a Cael Dewis i'w hysbysu.

"Ystyr cyfraniadau yw bod gennych yr hawl i fod yn rhan o weinid penderfyniadau, o gymuno ac o adolygu unrhyw gam a ellai effeithio arnaf i. Cael Llais, cael dewis"



GWYBODAETH



Ystyr hyn yw:

- Gwybodaeth sy'n hysbysu i bwyd ei deall
- Deallu yn gweithio gyda chi sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir

Byddwn yn:

- Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gynydd rhan yn lawr
- Dewis wrthydd chi sut y bydd y ffaith eich bod chi'n cynrydd rhan yn gennad gwahaniaeth
- Dewis wrthydd chi paw sy'n mynd i'r afael a newid pethau

EICH DEWIS CHI

Ystyr hyn yw:

- Mai chi sy'n dewis ydych chi am gynydd rhan i'w bodio
- Mai chi sy'n cael dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi
- Mai chi sy'n dewis beth wrthydd chi'n ei wneud a sut

Byddwn yn:

- Rheol digon o wybodaeth ac ansaw i chi benderfynu ydy hyn yn rhywberth yr ydych chi eisiau ei wneud a peidio



DM GWAHANIAETHU



Ystyr hyn yw:

- Bod plant a phobl ifanc i'w gysylltu yn wahanol ond bod gan bob un eiddoch yr un hawl i gael dewis eich dewis am faterion sy'n bwysig i chi
- Byddwn eisiau i bwyd dewis eu bod yn cael cwmni a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydyn nhw'n dymuno gennad hynny

Byddwn yn:

- hysbysu wrthydd gwahaniaethu
- cysylltu â phobl a phobl ifanc mewn llawer o wahaniaeth sylfaenol
- eich cael chi i gynydd rhan yn y pethau wrthydd chi am gynydd rhan ydych chi

PARCH

Ystyr hyn yw:

- Bod gan hysbysu i'w deall eu dewis, bod eich barn yn bwysig ac y byddwn yn ei pharchu

Byddwn yn:

- gennad ar eich eiddoch, eich safonau a'ch profiad
- eich cynydd chi o ddiffr ac yn eich bwrdd chi'n dag
- gweithio gyda chi i wneud rhywberth am y materion sy'n bwysig i chi
- gweithio gyda chi i'w helpu i wneud pethau eu gwell



BYDDWCH CHI AR EICH ENNILL HEFYD



Ystyr hyn yw:

- Ein bod ni am i'w hysbysu ac eisiau a gynydd rhan
- Ein bod yn gwybod bod gennych bethau eraill i'w gennad yn eich hysbysu hefyd
- Sicrhau bod gynydd rhan yn hysbysu cadarnhaol, nid yn un megiddol

Byddwn yn:

- gweithio mewn ffordd dda, plesurus, llawn hysbys
- gennad yn lawr o'r yr hyn wrthydd yn ei enydd
- gennad pethau cadarnhaol sy'n hysbysu eich hysbys
- newid mewn ffordd sylfaenol sy'n hysbysu i bwyd ifanc
- gweithio mewn ffordd dda yn parchu'r hyn sydd gennych i'w gennad

ADROTH

Ystyr hyn yw:

- Mae'n hysbysu i'w hysbysu eich bod yn gwybod po wahaniaeth wrthydd wedi'i wneud a sut y mae chi'n hysbysu wedi cael eu deffnyddio

Byddwn yn:

- chof i'w hysbysu ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd
- chof adroth i chi cysylltu ag sy'n bodio a hynny mewn ffordd hysbysu ei deall



GWELLA EIN FFORDD O WEITHIO



Ystyr hyn yw:

- Ein bod ni eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda chi

Byddwn yn:

- edrydd ar ein ffordd o weithio gyda chi a sut mae gwellu ar hynny

- gallu i chi beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid
- sicrhau bod eich barn yn gennad gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cysylltu ac yn gennad penderfyniadau



Mae'r ym 100 yn gennad ar bwyd i'w hysbysu eich bod yn gwybod po wahaniaeth wrthydd wedi'i wneud a sut y mae chi'n hysbysu wedi cael eu deffnyddio





Yn ychwanegol at hyn, bydd y partneriaid yn gwneud yr addewidion canlynol i blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg;

Ein haddewidion:

1. Yr ydym yn gwneud addewid y bydd ein gwybodaeth yn cael ei darparu mewn fformatau/ieithoedd priodol ac y byddwn yn rhoi digon o amser i chi gefnogi plant a phobl ifanc i benderfynu a ydynt eisiau cymryd rhan ai peidio. – *Bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chynnig yn hawdd i bobl ifanc ei thrin.*

2. Yr ydym yn gwneud addewid y byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau cyfranogol heb wahaniaethu yn lle y maent yn byw, eu hanghenion neu amgylchiadau. – *Byddwn yn sicrhau bod gan bobl o dan 25 oed gymaint o gyfle ag sy'n bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu hardaloedd eu hunain.*

3. Yr ydym yn gwneud addewid i barchu a gwerthfawrogi cyfranogiad pob plentyn a pherson ifanc, eu cymryd o ddifrif a'u trin yn deg. – *Byddwn yn parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb.*

4. Yr ydym yn gwneud addewid y byddwn bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gweld bod cyfranogi yn brofiad cadarnhaol a'u bod yn cael budd o gymryd rhan. – *Byddwn yn sicrhau bod cyfranogi bob amser yn brofiad cadarnhaol ac yn hwyl.*

5. Yr ydym yn gwneud addewid y byddwn bob amser yn cadw plant a phobl ifanc yn hysbys ynglŷn â'r gwahaniaeth y maent wedi ei wneud a'r ffordd y mae eu syniadau wedi cael eu defnyddio. – *Cewch wybod yn gyson sut yn union y bu eich syniadau o gymorth.*

6. Yr ydym yn gwneud addewid y bydd ein ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn gwella gan y byddwn wedi/a byddwn yn parhau i gymryd eu barn i ystyriaeth. – *Deuwn i gydweithio â chi'n well drwy wrando ar eich barn.*

7. Yr ydym yn gwneud addewid y byddwn yn rhoi ystyriaeth i farn y rhieni a gofalcwyr wrth gyflawni ein haddewidion i blant a phobl ifanc, lle bo'n briodol. – *Byddwn yn gwrando ar rieni a gofalcwyr wrth gyflawni ein haddewidion.*

8. Yr ydym yn gwneud addewid y bydd plant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn ffordd ystyrlon mewn llywodraethu a chydreoli; monitro cyllidebau, cyllid ac adolygu adnoddau; a phenodi staff, lle bo'n briodol. – *Byddwn yn eich cynnwys ym mhob penderfyniad sy'n cael ei wneud.*

CYNLLUNIAU GWEITHREDU
Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad: CYFRANOGIAD DISGYBLION

Is gyfeir-nod	Cyfeiriad at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deilliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Isel	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
1		Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu a chefnogi rhwydweithiau cynghorau ysgolion mewn gwahanol ranbarthau o amgylch Bro Morgannwg.	● Cyfarfodydd partneriaid ● Dynodi'r goblygiadau tymor byr o safbwynt adnoddau. ● Dynodi cefnogaeth ariannol hirdymor ● Penodi Swyddog Cyfranogiad Plant ● Gwblhau'r ymarferiad mapio a'r gronfa ddata ● Clystyrau o ysgolion cynradd wedi eu cyplysu gydag ysgolion uwchradd.	Uchel	Swyddog Cyfranogiad leuen-ctid + Swyddog Cyfranogiad Plant	Ionawr 2010 Ebrill 2009 Ebrill 2010 Ebrill 2009 Medi 2009 Ebrill 2010	Ebrill 2012 Rhagfyr 2009 Rhagfyr 2010 Gorffennaf 2009 Ebrill 2010 Ebrill 2011	Ymrwymiad amser partneriaid	
2		Datblygu canllawiau a phrotocolau lleol ar gyfer Rhwydweithiau Cynghorau Ysgolion.	● Nodau cyffredin/unffurf ● Pob darpariaeth addysgol yn dilyn protocolau ● Cysondeb yng ngwaith cynghorau ysgolion cynradd ac uwchradd ● Cyfranogiad disgyblion mewn penodi staff	Uchel	Swyddog Cyfranogiad leuen-ctid + Swyddog Cyfranogiad Plant	Medi 2009 Ebrill 2010 Medi 2009 Ebrill 2009	Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012	Amser staff Cost trafnidiaeth, lleoliad, cymhellion	

Is gyfeir-nod	Cyfeiriad at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deilliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Isel	Swyddog Cyfritol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
3	Gweithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.	● Pob ysgol wedi llofnodi eu bod yn derbyn y Safonau Cenedlaethol ● Cynnal arolygiadau hunanasesu gwirfoddol ● Hyfforddi disgyblion fel arolygwyr ifanc, a'u bod yn cymryd rhan mewn adolygiadau ● Cadw at Reoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005 ● Gweithdrefnau diogelu wedi eu gosod yn eu lle ● Disgyblion yn gysylltiedig â'r adolygiad o'r Strategaeth Cyfranogiad a Chynllun Plant a Phobl Ifanc y Fro	Canolig	Swyddog Cyfran-ogiad leuen-ctid + Swyddog Cyfran-ogiad Plant	Ebrill 2010 Medi 2010 Medi 2010 Ebrill 2009 Ebrill 2009 Ebrill 2009	Medi 2010 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012	Ymrwymiad amser Pecyn hyfforddi Dulliau arolygu		
4	Gosod sylfaen ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gymryd rhan weithredol mewn llunio penderfyniadau o fewn cynghorau ysgolion.	● Darparu pecyn hyfforddiant i athrawon ● Darparu pecyn hyfforddiant i ddisgyblion	Canolig	Swyddog Cyfran-ogiad leuen-ctid + Swyddog Cyfran-ogiad Plant	Ebrill 2010 Ebrill 2010	Ebrill 2012 Ebrill 2012	Ymrwymiad amser hyfforddwyr Cost lleoliad, trafnidiaeth deunyddiau Costau athrawon llanw		

Is gyfeir-nod	Cyfeir-iad at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deiliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Isel	Swyddog Cyfritol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
5		Sefydlu systemau cyfathrebu mewnol ac allanol ar gyfer Rhwydweithiau Cynghorau Ysgolion.	● Rhannu a dosbarthu gwybodaeth yn rheolaidd i staff ● Rhannu a dosbarthu gwybodaeth yn rheolaidd i ddisgyblion ● Sefydlu systemau cyfathrebu tryloyw ● Defnyddiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ● Datblygu cronfa ddata o gofnodion cyfarfodydd pob cyngor ysgolion ● Rhannu arferion gorau rhwng cynghorau ysgolion er enghraifft gwefan, cylichlythyrau, digwyddiadau	Canolig	Swyddog Cyfran-ogiad leuen-ctid + Swyddog Cyfran-ogiad Plant	Medi 2009 Medi 2009 Ebrill 2010 Medi 2009 Ebrill 2010 Medi 2009	Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012	Amser staff Cost trafnidiaeth, lleoliad, cymhellion	
6		Sicrhau bod Rhwydweithiau Cynghorau Ysgolion yn cysylltu gyda'u cymunedau lleol a chyrrff a digwyddiadau eraill ym maes cyfranogiad.	● Y Rhwydwaith Cynghorau Ysgolion yn cael gwybod am gyfleoedd i gyfranogi yn eu hardal ● Disgyblion o'r Rhwydwaith Cynghorau Ysgolion yn cael eu hethol i Gyngor leuenctid y Fro ● Cynrychiolydd o gyngor ysgol y Fro yn cael ei ethol i Uwch-gyngor y Ddraig Ffyni	Isel	Swyddog Cyfran-ogiad leuen-ctid + Swyddog Cyfran-ogiad Plant	Ebrill 2010 Ebrill 2012 Gorffennaf 2009	Ebrill 2012	Amser staff Cost trafnidiaeth, lleoliad, cymhellion	

Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad: CYFRANOGIAD CYMUNEDOL

Is gyfeir-nod	Cyfeir-iad at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deilliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Ise!	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
1		Sefydlu Fforwm leuenctid cynaliadwy yn y Fro sy'n galluogi pobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio amynt y tu allan i'r ysgol.	● Pobl ifanc yn cyfarfod fel Fforwm leuenctid y Fro ● Sefydlu mecanwaith cynaliadwy i bobl ifanc fod yn gysylltiedig â dinasysddiaeth weithredol ● Annog ymgysylltiad cymunedol ymhlith grwpiau lleiafrifol a grwpiau diddordeb arbennig ● Penodi Cydgysylltydd Fforwm leuenctid y Fro ● Sefydlu cylch gorchwyl Fforwm leuenctid y Fro ● Dod o hyd i gyllid allanol er mwyn cynnal Fforwm leuenctid y Fro ● Cynnal cyfarfodydd o ymddiriedolwyr y Fforwm	Uchel	Ymddiried-olwyr y Fforwm leuenctid + Cydgysylltydd y Fforwm leuenctid			Swydd y Cydgysylltwyr Fforwm leuenctid Cost trafniadaeth, lleoliad, cymhellion	
2		Hybu hyfforddiant a chefnogaeth i gyrff statudol a gwirfoddol ac i grwpiau o blant a phobl ifanc.	● Mapio lefelau cyfranogiad gydag asiantaethau a grwpiau ar hyd a lled y Fro ● Datblygu pecynnau hyfforddi ac adnoddau cefnogi	Canolig	Canolig Swyddog Cyfranog-iad leuenctid + Swyddog Cyfranog-iad Plant + Cydgysylltydd y Fforwm leuenctid	Medi 2009 Ebrill 2010	April 2010 April 2012	Ymrwymiad amser Pecyn hyfforddi Dulliau arolygu	

Is gyfeir-nod	Cyfeir-iad at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deilliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Isel	Swyddog Cyfritol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
3		Datblygu system gyfathrebu sy'n galluogi pob plentyn a pherson ifanc i wneud mewnbyn.	● Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ● Deunyddiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ● Sefydlu offerynnau cyfathrebu er enghraifft gwefan, cylchlythyrau ● Cyfleoedd i bobl ifanc gael dweud eu dweud er enghraifft Wythnos Ddemocratiaeth Leol. Cytundebau leuenctid	Canolig	Swyddog Cyfranog-iad leuenctid + Swyddog Cyfranog-iad Plant + Cydgysyllt-ydd y Fforwm leuenctid	Ebrill 2010 Ebrill 2010 Medi 2009 Ebrill 2009	Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2012	Costau datblygu gwefan Costau TGCh + costau monitro Amser staff	
4		Gweithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc.	● Grwpiau statudol a gwirfoddol yn llofnodi ar gyfer y Safonau Cenedlaethol ● Cynnal Arolygon Hunanasesu gwirfoddol ● Hyfforddi pobl ifanc fel arolygwyr ifanc sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau ● Hyfforddi plant fel arolygwyr ifanc sy'n cymryd rhan mewn adolygiadau ● Sefydlu gweithdrefnau diogelu ● Pobl ifanc a phlant yn ymwneud â phenodiadau staff	Canolig	Swyddog Cyfranog-iad leuenctid + Swyddog Cyfranog-iad Plant + Cydgysyllt-ydd y Fforwm leuenctid	Medi 2009 Ebrill 2010 Medi 2009 Medi 2010 Ebrill 2009 Ebrill 2009	Ebrill 2012 Ebrill 2012 Ebrill 2010 Ebrill 2011 Ebrill 2012 Ebrill 2012	Amser staff Costau gweinyddol	

Is gyfeir-nod	Cyfeir-iaid at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deilliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Isel	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
5		Sicrhau bod Fforwm Ieuenctid y Fro yn cysylltu gyda'u grwpiau cymunedol lleol a chyrff a digwyddiadau ehangach ym maes cyfranogiad.	- Pobl ifanc yn cael eu hethol o Fforwm Ieuenctid y Fro ar Gyngor Ieuenctid y Fro - Pobl ifanc yn cael eu hethol i Uwch-gyngor y Ddraig Ffyni	Isel	Cydgysylltydd y Fforwm Ieuenctid	Ebrill 2012 Gorffennaf 2009	Ebrill 2012		

Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad: CYNGOR IEUENCTID Y FRO

Is gyfeir-nod	Cyfeir-iaid at Gyn-lluniau Gweithredu Eraill	Gweithred	Meini Prawf Llwyddiant a Deilliannau	Blaenor-iaeth Uchel, Ganolig neu Isel	Officer Responsible	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Adnoddau Angenrheidiol	Cynnydd
1		Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu Cyfansoddiad Cyngor Ieuenctid y Fro.	- Datblygu cyfansoddiad i Gyngor Ieuenctid y Fro ar y gweill - Sefydlu proses etholiadol ar gyfer pobl ifanc	Isel	Cydgysylltydd Partner-iaeth Plant a Phobl Ifanc	Ionawr 2012 Ionawr 2012	Ebrill 2012 Ebrill 2012		

Adnoddau

Cefnogaeth leol

- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg
Ystafell 15, 3ydd Llawr, Swyddfeydd Dinesig,
Holton Road, Y Barri, CF63 4RU
01446 709427
- Ve Van de Voorde / Swyddog Cyfranogiad
Ieuenctid Gwasanaeth Ieuenctid Bro
Morgannwg
West House Cottage, Stanwell Road, Penarth,
CF64 2ZA
02920 701254
Vvandevoorde@valeofglamorgan.gov.uk
- Fforwm Ieuenctid y Fro
D/O West House Cottage, Stanwell Road,
Penarth, CF64 2ZA
02920 701254
- Graham Cone / Swyddog Cynhwysiant Bwrdd
Iechyd Lleol y Fro
2 Stanwell Road, Penarth, CF64 3EA
02920 350601
Graham.Cone@valeofglamorganlhb.wales.nhs.uk
- Gweithgarwch Ieuenctid Penarth
D/O Gwasanaeth Ieuenctid Penarth, West
House Cottage, Stanwell Road, Penarth,
CF64 2ZA, 02920 701254
- Carol Maher / Cydgysylltydd Ysgolion Iach
2 Stanwell Road, Penarth, CF54 3EA
02920 350637
carol.maher@nphs.wales.nhs.uk
- Sharon Topazio / Fforwm Ieuenctid
Cymunedau yn Gyntaf Gibbonsdown a Court
Aberaeron Close, Y Barri, CF62 9BT
01446 732406
SATopazio@valeofglamorgan.gov.uk
- Katherine Davies / Cymunedau yn Gyntaf
Castleland
Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri,
CF63 4RU
01446 709784
KVDavies@valeofglamorgan.gov.uk

Cefnogaeth Genedlaethol

- Yr Uned Gyfranogiad yn Achub y Plant
(Cymru)
Cyswllt: Anna Skeels
Ffôn: 02920 396838
Ymholiadau cyffredinol:
participationunit@savethechildren.org.uk
- Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
Cymru yn Achub y Plant (Cymru)
Cyswllt: Eleri Thomas
Ffôn: 02920 396838
Ymholiadau cyffredinol:
participationunit@savethechildren.org.uk
- Prosiect Cyfranogiad Llywodraeth Cynulliad
Cymru, Isadran Cyfleoedd Ieuenctid ac
Oedolion
Cyswllt: Karron Williams
Ffôn: 02920 826592
E-bost: karon.williams@wales.gsi.gov.uk
- Rhwydwaith Cyfranogiad Gweithwyr Cymru yn
adeilad Plant yng Nghymru
Cyswllt: Ed Janes
Ffôn: 02920 342434
E-bost: ed.janes@childreninwales.org.uk
www.childreninwales.org.uk
- Menter Pobl Ifanc Carnegie a Gwefan
Cyfranogi'n Gweithio
www.carnegieuktrust.org.uk/cypi/home
www.participationworks.org.uk
- Prosiect Cyngor Ysgolion Llywodraeth Cynulliad
Cymru
Cyswllt: Jane Harries
Ffôn: 02920 826002
E-bost: j.harries@wales.gsi.gov.uk
www.schoolcouncilswales.org.uk

- Y Ddraig Ffyn-ci
Ffôn: 01792 450000
Ymholiadau
cyffredinol: enquiries@funkydragon.org
www.funkydragon.org.uk
 - Comisiynydd Plant Cymru
Ffôn: 01792 765600
Ymholiadau cyffredinol:
post@childcomwales.org.uk
www.childcom.org.uk
-

Adnoddau

Gwefannau

- Barnardo's - www.barnardos.org.uk/resources.htm
- Canllaw Ar-lein - www.canllaw-online.com
- Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru – www.cwvys.org.uk
- Gweithredu dros Blant – www.actionforchildren.org.uk
- Asiantaeth Ieuenctid Cenedlaethol – www.nya.org
- Tros Gynnal – www.trosgynnal.org.uk
- Dynamix – www.dynamix.ltd.uk
- Achub y Plant – www.savethechildren.org.uk
- Llais Ieuenctid Unicef – www.therightssite.org.uk
- Sefydliad Joseph Rowntree – www.jrf.org.uk
- Biwro Cenedlaethol y Plant – www.ncb.org.uk
- I'm a Councillor get me out of here – www.bigvote.org.uk
- Wythnos Ddemocratiaeth Leol - www.localdemocracy.lga.gov.uk
- Children's Rights Alliance for England - www.crae.org.uk

Cyhoeddiadau

Aspinwall, T., Crowley, A., Larkins, C. (2003), *Listen Up! Children and Young People Talk: About their Rights in Education. Wales: Save the Children*

British Youth Council (2005), *Youth at the table. A Participation Worker's view: A report from BYC's young people and governance workshop at the 2005 PWNE Annual Conference*. London: British Youth Council

Crimmens, D., West, A. (2004), *Having their say. Young people and participation: European experiences*. Dorset: Russell House Publishing Ltd.

Croke, R., Crowley, A. (2006), *Righting the wrongs: The reality of children's rights in Wales*. Cardiff: Save the Children Wales Programme

Cutler, D. (2003), *Standard! Organisational Standards and Young People's Participation in Public Decision Making*. London: Carnegie Young People Initiative

Cutler, D., Frost, R. (2001), *Taking the Initiative: promoting young people's involvement in public decision making in the UK*. London: Carnegie Young People Initiative

Fajerman, L., Treseder, P., Connor, J. (2004), *Children are Service Users Too. A guide to consulting children and young people*. Second edition. London: Save the Children

Franklin, A., Sloper, P. (2004), Participation of Disabled Children and Young People in Decision-Making within Social Services Departments in England. *Research Works*, 2004-02, Social Policy Research Unit, York: University of York

Hart, R. (1992), *Children's Participation: from Tokenism to Citizenship*. Florence: UNICEF Innocenti Research Centre.

International Save the Children Alliance (2005), *Practice Standards in Children's Participation*. London: Save the Children UK.

Kirby, P., Bryson, S. (2002), *Measuring the Magic? Evaluating and researching young people's participation in public decision making*. London: Carnegie Young People Initiative

Kirby, P., Lanyon, C., Cronin, K., Sinclair, R. (2003), *Building a Culture of Participation. Handbook*. London: Department for Education and Skills

Madden, S. (2001), *Re:action consultation toolkit. A practical toolkit for consulting with children and young people on policy issues*. Edinburgh: Save the Children Scotland Programme

Save the Children (1997), *All together now. Community participation for Children and young people*. London: Save the Children

Treseder, P. (1997), *Empowering Children and Young People*. London: Save the Children

Treseder, P., Crowley, A. (2001), *Taking the Initiative: Promoting Young People's Participation in Decision-Making. Wales Report*. London: Carnegie Young People Initiative

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), *Canllawiau ar strategaethau cyfranogiad lleol 0-25*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007), *Gweithredu'r Hawliau. Rhoi Hawliau Plant a Phobl Ifanc ar waith yng Nghymru*. Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru

